# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant â ffocws ar y cyd

## Cylch Meithrin Llangadog

**Ysgol Llangadog**
**Heol Myddfai**
**Llangadog**
**Caerfyrddin SA19**
**9HP**

**Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y lleoliad wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf ac mae AGC yn fodlon bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio o ganlyniad i'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r lleoliad oddi ar y rhestr o leoliadau sydd angen gwelliant â ffocws ac mae AGC yn dirwyn ei phroses gydymffurfio i ben.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1 Darparu cyfleoedd cyson i blant gael llais i'w gweithgareddau ym mhob ardal o'r amgylchedd dysgu

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant gael llais i'w gweithgareddau. Maent yn ymateb i ddiddordebau plant yn bwrpasol, er enghraifft trwy gynnig profiadau dysgu a chwarae yn seiliedig ar yr ardd. Mae ymarferwyr yn cefnogi dymuniadau plant trwy addasu'r ddarpariaeth yn brydlon, er enghraifft trwy ymateb i ddymuniad plentyn i ychwanegu gliter at baent yn yr ardal allanol, neu i greu planedau allan o gardfwrdd. Yn sgil hyn, mae plant yn magu hyder i wneud dewisiadau priodol ynglŷn ag ym mha ardal maent am chwarae a phenderfynu beth a sut maent am ddysgu. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn dechrau cynllunio profiadau go iawn i atgyfnerthu'r dysgu a chynnal diddordeb plant. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfle pwrpasol iddynt arsylwi ar gylch bywyd pili pala. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant a'u sbarduno i ddarganfod mwy drostynt eu hunain ac i ymgolli yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn dechrau cynnig profiadau dysgu a chwarae buddiol ym mhob ardal tu fewn a thu allan. Mae'r rhan fwyaf yn seiliedig ar thema'r tymor. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd i ddysgu mwy am drychfilod, a'r rheini'n cynnwys modelau, llyfrau gwybodaeth, offer celf i greu drychfilod a chwyddwydrau er mwyn i blant ymgolli yn eu dychymyg. O ganlyniad, mae'r plant yn barod i sgwrsio a thrafod am eu profiadau gyda chyfoedion ac ymarferwyr, a hynny'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u datblygiad. Yn ystod y gweithgareddau hyn, mae ymarferwyr yn sgwrsio'n fyrlymus â'r plant ac yn ehangu eu geirfa yn effeithiol, er enghraifft drwy drafod am 'hir a byr', 'tew a tenau', a thrwy eu hannog i gyfri yn y Gymraeg.

Mae plant yn cael cyfle pwrpasol i fod yn 'Helpwr y Dydd' er mwyn cefnogi'r ymarferwyr yn y lleoliad, er enghraifft wrth gasglu'r llaeth ar gyfer eu cyfoedion i'w yfed. Mae'r plant yn arllwys y llaeth yn ofalus i gwpanau ac yn mwynhau ei yfed gyda ffrwyth o'u dewis. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau annibynnol y plant wrth iddynt ddod at y bwrdd snac ar amser sy'n gyfleus iddynt.

## A2 Darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n cefnogi plant i ddatblygu eu medrau yn fwriadus dros gyfnod

Mae arweinwyr wedi clustnodi ymarferydd fel arweinydd i gefnogi addysg gynnar plant sy’n dair oed o fewn y lleoliad. Mewn amser byr, mae hi wedi cydweithio’n llwyddiannus gyda rhanddeiliaid i osod strwythurau a phrosesau pwrpasol yn eu lle i gefnogi a datblygu medrau’r plant. O dan ei harweiniad, mae’r cynlluniau wythnosol yn dechrau adeiladu’n addas ar ddysgu blaenorol ac yn dod i adnabod cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau’r plant trwy ystod dda o brofiadau dysgu a chwarae. Mae hyn yn sicrhau bod gan ymarferwyr eraill gwell ddealltwriaeth o sut i gefnogi’r plant yn ystod y gweithgareddau hyn. O ganlyniad, maent yn dechrau defnyddio cwestiynau priodol er mwyn ymestyn dealltwriaeth a medrau’r plant. Er enghraifft, maent yn annog plant i gyfri nifer y coesau ar gorryn ac yna i’w cyfateb i’r rhif.

Mae’r arweinydd sy’n gyfrifol am addysg gynnar yn asesu plant ar fynediad i’r lleoliad yn effeithiol er mwyn adnabod eu cryfderau a meysydd i’w gwella. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn dechrau cofnodi arsylwadau am ddysgu’r plant yn fwy effeithiol er mwyn adrodd ar eu cynnydd. Mae’r arweinydd sy’n gyfrifol am addysg gynnar yn defnyddio’r wybodaeth yn addas i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu. Er hyn, nid yw’r arfer newydd hon wedi sefydlu’n llawn hyd yn hyn a phrin mae’r holl ymarferwyr yn cyfrannu i’r broses gynllunio. O ganlyniad, nid oes ganddynt berchnogaeth lawn o’r gweithgareddau a phrofiadau dysgu sy’n cael eu darparu.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau gwrando a siarad y plant yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn canu caneuon sy’n helpu plant i gofio trefn dyddiau’r wythnos, ac yn trafod y tywydd yn effeithiol. Maent yn holi’r plant yn effeithiol ac yn bwydo iaith yn dda. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ddisgrifio lliw trychfilod ac i ddefnyddio geiriau fel ‘bach’ a ‘mawr’ wrth drafod maint peli toes. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i annog plant i feithrin diddordeb mewn llyfrau trwy ddarparu ardal ddeniadol gydag ystod dda o lyfrau diddorol. Yn ogystal, maent yn sicrhau ystod briodol o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft trwy wneud siapiau mewn sebon eillio, rolio a gwneud siapiau allan o does yn ogystal â pheintio yn yr ardal allanol.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau addas sy’n meithrin medrau rhifedd a digidol plant. Er enghraifft, maent yn darparu gweithgareddau i’r plant ddefnyddio adnoddau rhif i ddatblygu eu dealltwriaeth o rifau 0 i 10, a’u hannog i gyfri a disgrifio siapiau. Defnyddir tegan rhaglenadwy yn hwyliog er mwyn cefnogi plant i ddeall sut i fwydo cyfarwyddiadau er mwyn gwneud iddo symud yn ôl ac ymlaen. Maent hefyd yn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant gael mynediad cyson at adnoddau digidol fel cyfarpar cyfathrebu syml er mwyn datblygu eu medrau’n naturiol yn eu chwarae a’u dysgu.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i hyrwyddo medrau creadigol a chorfforol y plant. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio teganau fel tractor er mwyn paentio patrymau ac yn defnyddio offer taro yn yr ardal allanol yn hyderus. Maent yn dewis lliw paent yn annibynnol i greu patrymau diddorol ac yn dechrau cymysgu

paent i greu lliwiau newydd. Yn gyffredinol, mae'r plant yn defnyddio'r adnoddau fel y beiciau tair olwyn a'r llwybr cydbwyso er mwyn datblygu eu medrau corfforol yn gadarn yn yr ardal tu allan. Mae'r plant yn cydweithio ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd a chyda'r ymarferwyr wrth fwynhau'r profiadau hyn.

**A3 Gwella a datblygu rolau arweinwyr wrth osod cyfeiriad strategol i'r lleoliad**

Mae camau i wella a datblygu rolau arweinwyr wedi dechrau gwreiddio ac maent yn cael effaith briodol ar arweinyddiaeth y lleoliad, y ddarpariaeth a deilliannau'r plant, ac mae lles a gofal plant yn flaenoriaeth iddynt. Yn ogystal, mae cyfathrebu rhwng arweinwyr, ymarferwyr ac aelodau'r pwyllgor yn fwy cydlynus ac effeithiol erbyn hyn. Penodwyd aelodau newydd i'r pwyllgor rheoli, ynghyd ag ymddiriedolwyr newydd, er mwyn cefnogi gwaith y lleoliad. Maent yn dechrau manteisio ar arbenigeddau aelodau'r pwyllgor er mwyn arwain ar elfennau pwysig fel rheoli cyllid a gwerthuso asesiadau risg. Yn ogystal, mae'r unigol cyfrifol yn llawer mwy ymwybodol o'i rôl ac yn cynnig cefnogaeth fuddiol i arweinwyr ac ymarferwyr. O ganlyniad, mae cynnydd amlwg yn y ddarpariaeth ers yr arolygiad craidd ac mae arweinwyr wedi sicrhau eu bod wedi ymateb yn llawn i'r materion diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiadau blaenorol.

At ei gilydd, mae arweinwyr sy'n gweithio yn y lleoliad yn cydweithio'n gyson i gefnogi ymarferwyr i ddarparu gweithgareddau sy'n ymateb i anghenion a diddordebau plant. Yn gyffredinol, maent yn manteisio'n briodol ar gyngor gan randdeiliaid eraill er mwyn gwella'r ddarpariaeth, er enghraifft trwy ymateb i awgrymiadau o ran sut i gynllunio profiadau dysgu i ddatblygu medrau plant. Mae hyn yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar fedrau'r ymarferwyr a'u dealltwriaeth o nodweddion addysgu da.

Mae arweinwyr wedi gwella prosesau hunanwerthuso'r lleoliad yn ddiweddar. Erbyn hyn, mae'r prosesau monitro a gwerthuso yn cynnwys mewnbwn gan yr holl randdeiliaid ac maent wedi dechrau trafod yr hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn rhaeadru arferion da a thrafod bywyd a gwaith y lleoliad. Mae canfyddiadau'r broses hunanwerthuso yn bwydo'r cynllun gweithredu yn addas. Mae'r cynllun yn amlinellu blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi sicrhau adnoddau newydd sy'n dechrau cefnogi plant i wneud cynnydd addas mewn ychydig o'u medrau.

**A4 Mynd i'r afael a'r materion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad**

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn hyderus am y broses i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryder am blant neu ymarferwyr. Mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac yn hyderus wrth ymateb i sefyllfaoedd posibl. Maent erbyn hyn yn cadw cofnod o anafiadau sy'n bodoli eisoes. Maent wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Mae gan y lleoliad broses recriwtio gadarn a diogel ac mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wiriadau hanfodol wedi eu cwblhau. Mae ffeiliau staff

yn cynnwys y dogfennau priodol. Yn ogystal, mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth i AGC am newidiadau staffio erbyn hyn.

Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg generig digonol ac mae'r ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau yn ddyddiol ar gyfer pob ardal. Maent hefyd erbyn hyn yn asesu risg ar gyfer ymweliadau, ynghyd ag ymwelwyr i'r safle. Mae rheolwyr wedi cwblhau hyfforddiant pellach ar lunio asesiadau risg.

Mae trefniadau ar gyfer cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu bellach yn eu lle ar gyfer bron bob ymarferydd ac mae'r broses yn cefnogi ymarferwyr yn briodol. Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn derbyn digon o gymorth yn eu rôl a bod y prosesau cyfathrebu wedi datblygu. Maent yn hyderus i drafod unrhyw fater â'r rheolwyr a'r arweinydd sy'n gyfrifol am addysg gynnar ac yn nodi bod polisi 'drws agored' yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cyfathrebu â'r ymarferwyr ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda nhw, er enghraifft y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr ymweliad diwethaf. O ganlyniad i'r gwelliannau, mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol**

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 08 Awst 2023